

Gwrychoedd Uchel: Nodiadau ar gyfer llenwi'r ffurflen gwyno

Nodiadau cyffredinol

Diben y nodiadau hyn yw eich helpu chi llenwi ffurflen i wneud cwyn am wrych uchel cyfagos. Dylech hefyd ddarllen y daflen '*Gwrychoedd uchel: cwyno wrth y Cyngor*'.

Os na fyddwch wedi llenwi'r ffurflen yn briodol neu wedi methu â rhoi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gallai hynny achosi oedi wrth ystyried eich cwyn.

Os nad ydych yn siŵr sut i ateb rhai o'r cwestiynau cysylltwch â [x adran] ar [y rhif ffôn] neu [z cyfeiriad e-bost].

Gallwch gael cyfieithiadau a fersiynau print bras o'r nodiadau hyn a'r ffurflen gan y Cyngor.

1. Eich ymdrechion i ddatrys y cwyn

Cadwch y disgrifiadau'n fyr ond dywedwch sut wnaethoch chi gysylltu â'r person arall (e.e. wyneb yn wyneb, dros y ffôn, mewn llythyr) a beth oedd y canlyniad.

Enghraifft 1

- 12 Mawrth 2005 – ffoniais i ofyn a allem drafod y gwrych. Cawsom gyfarfod ar 19 Mawrth ond nid oeddem yn medru cytuno ar ateb;
- 15 Ebrill – daeth cyfryngwr i ymweld â ni;
- 29 Ebrill – cafwyd cyfarfod gyda'r cymdogion a'r cyfryngwyr. Ond ni lwyddwyd i gael ateb y gallem gytuno arno;
- 14 Mai – ysgrifennais at y cymydog i'w hysbysu fy mod yn bwriadu cwyno wrth y Cyngor.

Enghraifft 2

- 12 Mawrth 2005 – ysgrifennais i ofyn a allem drafod y gwrych. Dim ateb 2 wythnos yn ddiweddarach;
- 9 Ebrill – ysgrifennais i ofyn a fyddai'n fodlon siarad â chyfryngwr. Dim ateb 2 wythnos yn ddiweddarach;
- 7 Mai - ysgrifennais at y cymydog i'w hysbysu fy mod yn bwriadu cwyno wrth y Cyngor.

Enghraifft 3

- 12 Mawrth 2005 – gwelais fy nghymydog yn yr ardd a gofynnais a allem drafod y gwrych. Daeth draw ar 19 Mawrth i weld effaith y gwrych drosto'i hun. Roedd yn deall y sefyllfa ond nid oedd yn fodlon tocio'r gwrych gymaint ag y dymunem ni;
- Roedd y cymdogion yn fodlon siarad â chyfryngwyr ond nid oedd gwasanaethau cyfryngu ar gael yn ein hardal ni. Rydyn ni'n byw yn rhy bell o'r gwasanaeth agosaf;
- 23 Ebrill - gwelais y cymydog eto a dywedais wrtho os na allem gytuno ar ateb y byddem yn gwneud cwyn ffurfiol i'r Cyngor. Gadewais bethau i fod am bythefnos yna fe wnes i anfon llythyr yn cadarnhau y byddem yn bwrw ymlaen â'n cwyn.

Nid oes angen anfon copïau o'r holl ohebiaeth gyda'ch cymydog am y gwrych, yn enwedig os yw'r anghydfod yn un maith. Bydd tystiolaeth o'ch ymdrechion diweddaraf i ddatrys y mater yn ddigon.

2. Y meini prawf dros wneud cwyn

Y sawl sy'n gwneud cwyn

2.6 Rhaid i chi fod yn berchennog **neu'n** feddiannydd yr eiddo yr effeithir arno gan wrych uchel i chi fedru gwneud cwyn ffurfiol i'r Cyngor.

Os nad chi yw perchennog yr eiddo (e.e. am eich bod yn denant neu'n lesddaliwr) mae gennych hawl i wneud cwyn. Ond dylech roi gwybod i'r perchennog (e.e. landlord neu gwmni rheoli) beth yr ydych yn ei wneud.

2.7 Nid oes rhaid i'r cyfan ohono fod yn eiddo preswyl ond dylai gynnwys rhywfaint o le byw neu ni allwn ystyried y cais.

3. Y rhesymau am y cwyn

Bydd yn help os gallwch roi cymaint o wybodaeth ag y gallwch, ond cofiwch gadw at y ffeithiau. Cofiwch y bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei hanfon at y person sy'n berchen ar y safle lle mae'r gwrych yn tyfu, ac at y person sy'n byw yno os ydynt yn bobl wahanol.

Canolbwyntiwch ar y gwrych ac ar yr anfanteision i chi am ei fod yn rhy uchel.

Ni allwn ystyried problem nad ydynt yn gysylltiedig ag uchder y gwrych. Er enghraifft os yw gwreiddiau'r gwrych yn gwthio llwybr i fyny.

Ni allwn ychwaith ystyried pethau nad ydynt yn ymwneud â'r gwrych dan sylw. Er enghraifft bod pobl eraill yn cadw eu gwrychoedd nhw'n isel; neu fod y pryder yn eich gwneud chi'n sâl.

Anfonwch ffotograff o'r gwrych a braslun yn dangos lleoliad y gwrych a'r eiddo cyfagos.

Wrth lunio'r braslun, edrychwch ar yr enghraifft isod a gwnewch yn siŵr eich bod yn:

- Dangos ac yn enwi'r ffyrdd o gwmpas.
- Dangos adeiladau, gan gynnwys eiddo cyfagos. Ychwanegwch rifau neu enwau tai.
- Dangos lleoliad y gwrych yn glir a pha mor bell y mae'n ymestyn.
- Dangos lle mae'r gogledd.

[Rhowch enghraifft o fraslun yma]

Cynhwyswch gopiâu o unrhyw adroddiadau proffesiynol a all fod gennych. Os ydych yn cwyno bod y gwrych yn rhwystro'r golau, dangoswch lle mae'r gogledd ar eich cynllun (gweler y nodyn yn adran 4 uchod) a rhowch fesuriadau perthnasol (e.e. maint yr ardd, pellter rhwng y gwrych ac unrhyw ffenestri yr effeithir arnynt.) Rhaid mesur popeth mewn metrau (m).

4. Cwynion blaenorol i'r Cyngor

Dim ond cwynion ffurfiol y mae angen i ni wybod amdany'n nhw, a wnaed o dan y rhan honno o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 sy'n ymwneud â gwrychoedd uchel. Nid oes angen i chi ddweud wrthym am alwadau ffôn neu gysylltiad anffurfiol arall a gawsoch â'r Cyngor am eich problemau gyda'r gwrych.

5. Pwy yw Pwy/Y Partion

Mae angen yr holl enwau a chyfeiriadau hyn oherwydd bod rhai dogfennau y mae angen i ni, yn ôl i gyfraith, eu hanfon at berchennog a meddiannydd y tir lle mae'r gwrych yn tyfu. Mae'r dogfennau hynny'n cynnwys ein penderfyniad am y cwyn.

5.1 Hyd yn oed os oes rhywun arall yn cyflwyno'r cwyn ar eich rhan, mae'n bwysig ein bod yn gwybod sut i gysylltu â'r achwynydd.

Rhowch dic yn y bocs 'Ydy' os oes yn well gennych i ni gysylltu â chi dros yr e-bost. Ni allwn anfon dogfennau atoch yn electronig oni fyddwch wedi cytuno i hynny.

5.2 Mae angen yr wybodaeth hon oherwydd bydd rhaid i ni gysylltu â'r person hwn i drefnu i ymweld â'r eiddo i weld effaith y gwrych drosom ein hunain.

5.3 Llenwch y rhan hon os ydych yn gyngorydd proffesiynol, perthynas, ffrind neu gynrychiolydd arall.

Y person hwn fydd ein prif gysylltiad ar bob mater sy'n ymwneud â'r cwyn hwn. Byddwn yn cyfeirio pob ymholiad a gohebiaeth ato ef. Cadwch hynny mewn cof.

Os rhowch dic yn y bocs 'Ydy' byddwn yn anfon popeth sy'n ymwneud â'r cwyn hwn dros yr e-bost. Ni allwn anfon dogfennau atoch yn electronig oni fyddwch wedi cytuno i hynny.

5.4 Fel rheol y person hwn fydd yr un yr ydych wedi siarad ag ef pan oeddech chi'n ceisio cael ateb i'ch problemau gyda'r gwrych.

Os yw'r safle lle mae'r gwrych yn tyfu heb gyfeiriad post, defnyddiwch y bocs i ddisgrifio lle mae mor glir â phosibl e.e. 'Tir y tu cefn i 12 i 18 Stryd Fawr' neu'r 'Parc yn ymyl y Briffordd'.

Mae angen yr wybodaeth hon arnom oherwydd bydd rhaid i ni gysylltu â'r bobl hyn i gael eu sylwadau ac i drefnu i ymweld â'r safle lle mae'r gwrych yn tyfu.

5.5 Os nad ydych yn siŵr pwy sy'n berchen ar yr eiddo lle mae'r gwrych yn tyfu, gallwch chwilio'r Gofrestrfa Tir. Mae'r ffurflen berthnasol (313) ar eu gwefan (www.landregistry.gov.uk). Gallwch ei chael o'r Swyddfa Leol hefyd. Y ffi gyfredol am y gwasanaeth hwn yw [£4], os ydych yn gwybod cyfeiriad post llawn yr eiddo.

Fel arall, gallwch gael manylion eiddo cofrestredig yng Nghymru a Lloegr yn rhwydd oddi ar wefan y Gofrestrfa Tir (www.landregisteronline.gov.uk). Gallwch lawrlwytho copiâu PDF o'r planiau a'r cofrestrri yn electronig am [£2] yr un. Mae'r gofrestr yn dangos pwy yw'r perchennog.

6. Dogfennau i'w hanfon gyda'r cais

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi ticio pob bocs perthnasol.

Os ydych wedi ticio'r bocs olaf, rhestrwch y dogfennau hynny yn ôl dyddiad a theitl (ee Ionawr 005 – adroddiad syrfêwr). Bydd hyn yn help i ni gadarnhau ein bod wedi cael popeth.

Os ydych yn cyflwyno'r ffurflen dros yr e-bost a hefyd yn bwriadu postio dogfennau eraill atom ar wahân, rhowch gyfeirnod neu deitl arnynt (e.e. cwyn am wrychoedd, 12 Stryd Fawr) fel y gallwn roi popeth gyda'i gilydd yn ddiogel.

7. Anfon y cwyn

Dylech wneud y siec yn daladwy i'r Cyngor.